

POLISI GWRTH-FWLIO YSGOL HOSON

1. Datganiad

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw bwlio ac nid oes unrhyw le iddo o fewn ein hysgol. Does gan unrhyw blentyn, na grŵp o blant yr hawl i wneud i neb arall deimlo yn anghyfforddus nag yn anhapus oherwydd rhesymau hunanol. Nid yw'r ysgol hon yn goddef naill ai bwlio geiriol, emosiynol na chorfforol. Yn ein hysgol, fe ystyriwn bwlio yn fater difrifol. Yr ydym yn cydnabod y gall bwlio ddigwydd o fewn ein hysgol fel ymhob ysgol arall. Fel ysgol gyfan, mi fyddwn yn ymdrin â hyn os cyfyd ar unrhyw adeg.

2. Bwlio - Diffiniad

Mae'r ysgol yn cytuno a diffinaid y Cynulliad Cymreig ynghylch bwlio.

BWLIO – Y FFEITHIAU

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n diffinio bwlio fel rhywun yn brifo rhywun arall yn fwriadol, lle bo'r berthynas yn un sy'n cynnwys anghydbwysedd grym. Fel arfer mae ailddigwydd neu'n barhaus, er bod rhai ymosodiadau unigol gall fod ag effaith niweidiol barhaus ar y dioddefwyr, gan eu gadael yn glwyfedig ac ar bigau'r drain y bydd dychweliad yn y dyfodol. Mae'r diffiniad hwn yn cyd-fynd â disgrifiadau plant a phobl ifanc, ac ymchwil.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Rhwydwaith yn Erbyn Bwlio'n credu bod bwlio'n ddifrifol, ac y dylem weithio i ostwng a'i atal fel rhan o'n hymdrechion i greu amgylcheddau diogel, cadarnhaol a chyffrous i blant. Mae'r ffeithlen hon yn cyflwyno rhai o'r canfyddiadau diweddar ar fwlio, y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, arweiniadau byr i adnoddau, a phwysigwydd cyfranogiad plant a phobl ifanc.

BETH YW BWLIO?

Mae sawl ffurf ar fwlio: wyneb yn wyneb, neu drwy bobl eraill. Gall y dolur fod yn gorfforol a/neu'n emosiynol.

Mae peth bwlio'n gorfforol:

- cicio, taro, gwrthio
- cymryd a difrodi eiddo.

Mae peth bwlio ar lafar:

- galw enwau
- gwawdio, gwatwar
- gwneud sylwadau sarhaus
- gwneud bygythion.

Mae peth bwlio'n berthynol:

- eithrio pobl o grwpiau, anwybyddu'n fwriadol
- clebran, taenu straeon.

Mae peth bwlio'n defnyddio technoleg fodern fel ffonau symudol, neu'r rhyngwrwd. Mae'r 'seiber fwlio' hwn yn cynnwys:

- bwlio neges testun
- bwlio galwad ffôn
- bwlio darlun / clip fideo (trwy gamerâu ffôn symudol)
- bwlio e-bost
- bwlio siop siarad
- bwlio trwy negesu parod
- bwlio trwy wefannau.

Atal

Mae'r ysgol yn:

1. dilyn a gweithredu dulliau Webtser-Stratton er mwyn creu awyrgylch positif, cartrefol a chynhwysol
2. codi ymwybyddiaeth achlysurol drwy'r gwasanaethau boreol
3. trafodaeth rhwng y plant yn ystod sesiynnau amser cylch a gwersi ABACh
4. lleihau'r cyfleoedd o fwlio drwy:-
 - (a) oruchwyliaeth fanwl gan y staff o'i dosbarthiadau
 - (b) cadw gwyliaeth gyson ar y coridor a manau diarffordd rhwng gwersi ac yn ystod cyfnodau anstrwythuredig
5. monitro ymateb y disgyblion i brawf PASS
6. rhoi cyfle i staff drafod unrhyw bryderon yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd staff neu gyda'r aelod o staff priodol

Adweithio ac Ymateb

Pan mae yna gyhuddiad o fwlio yn cael ei wneud yn erbyn disgybl neu grwp o ddisgyblion, bydd yr athro/athrawes dosbarth yn:

Cysylltu gyda rhieni y disgyblion dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwyn / sefyllfa ac i egluro polisi'r ysgol gan dynnu sylw at y camau fydd yn cael eu cymryd.

Trafod y mater gyda'r person/au sydd yn cael eu cyhuddo o fwlio a gyda 'targed' y bwlio. Byddwn yn egluro nad yw'r ysgol yn caniatáu bwlio o unrhyw fath.

Sicrhau fod y disgyblion yn deall at bwy / i le y gall fynd os yw'n teimlo'n isel neu'n ansicr (ardal dawel, aelod os staff ayyb).

Os yn briodol (a gyda caniatad y rhieni), bydd yr ysgol cynnal sesiynnau 'Restorative Practise' gyda'r person/au a gyhuddir o fwlio a targed y bwlio.

Cefnogi a Chadw Golwg

Bydd yr ysgol yn cadw cofnod ar ffurf 'taflen amser wythnosol' am gyfnod penodedig, cytunedig (o leiaf hanner tymor) er mwyn monitro a chofnodi unrhyw achos neu ddigwyddiad. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol gadw cofnod manwl o'r hyn sydd yn mynd ymlaen er mwyn gallu datrys y sefyllfa. Bydd hyn yn sicrhau fod gennym ni wybodaeth manwl ac ein bod yn medru ymdrin a'r sefyllfa yn deg.

Bydd y taflen yn nwylo aelod penodedig o staff (gan amlaf yr athro dosbarth) a bydd gweddill aelodau staff yr ysgol yn ymwybodol o hyn gyda enwau y disgyblion wedi eu nodi yn yr ystafell athrawon.

Gofynnir i'r disgyblion dan sylw i ddweud wrth y person sydd ym meddiant y cerdyn cofnod (neu unrhyw aelod arall o staff neu eu rhieni) am unrhyw achos neu ddigwyddiad. Bydd yr athro dosbarth yn ymchwilio i mewn i'r digwyddiad ac yn cofnodi y digwyddiad a'r canlyniad.

Dylid cofnodi unrhyw 'ddigwyddiad' yn ogystal a'r camau a gymerwyd i ymchwilio i mewn i'r digwyddiad yn ogystal a'r deilliannau.

Os oes cam ymddwyn wedi digwydd, rhoddir cosb priodol ac os oes angen byddwn yn trafod y mater gyda rhieni y disgybl/ion.

Bydd yr athro dosbarth yn adrodd yn ôl i'r rhieni, yn unol ag amserlen cytunedig i adolygu'r sefyllfa. Darperir copi o'r cofnod i'r rhieni yn wythnosol / bob bythefnos. Bydd yn rhaid ystyried iaith y cartref pan yn cadw'r cofnod.

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion a rhieni y disgyblion yn cael pob cyfle i drafod y mater yn rheolaidd gan gytuno i gyfarfod ar amser penodedig (bob wythnos/pythefnos)

Ar ddiwedd y cyfnod monitro, dylid cytuno i barhau a'r monitro neu dod a'r cofnod i ben.

Bydd cofnod o'r mater yn cael ei lewni gan yr athro dosbarth ar y daflen Cofnod Rhieni ar system gyfrifiadur yr ysgol.

Camau Pellach

Gall yr ysgol sicrhau cefongaeth i'r disgyblion drwy sesiynnau amser cylch, ystafell anwytho yr ysgol, grwpiau cefnogi, asantiaethau allanol megis y seicolegydd addysg neu CAMHS.

Os yw'r ymddygiad hyn yn parhau / cynyddu, bydd yr athro dosbarth yn ei gyfeirio at y Pennaeth Cyfnod Sylfaen / Dirprwy Bennaeth. Os yn briodol, bydd y mater yn trosgwyddo i'r Pennaeth.

Bydd yr ysgol yn ymateb gan ddefnyddio'r camau canlynol:

Ynysu y disgybl/ion o amseroedd anstrwythuredig penodol (amser chwarae, amser cinio ayyb) neu o wersi/gweithgareddau penodol.

Gwahardd y disgybl/ion o dir yr ysgol yn ystod amser chwarae / cinio (os yn briodol)

Gwaharddiad tymor byr o'r ysgol (1 neu 2 ddiwrnod)

Gwaharddiad hir dymor o'r ysgol (rhwng 2 a 5 diwrnod)

Gwaharddiad parhaol o'r ysgol (wedi cyfanswm o 45 diwrnod o waharddiadau)

Rôl y Rhieni

Mae gan rhieni rhan allweddol i'w chwarae yn y broses o atal bwlio yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bwysig eu bod yn cysylltu a'r ysgol yn syth os oes gennynt unrhyw bryderon ynghylch materion yn ymwneud a bwlio. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i ddelio a'r mater yn syth.

Mae'n bwysig nodi ei fod yn llawer anoddach i'r ysgol ddelio ag achosion sydd wedi digwydd yn y gorffennol pan cant y wybodaeth dyddiau, wythnosau neu hyd yn oed misoedd wedyn. Annogwn y rhieni i gysylltu a'r ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn peri gofid iddynt. Gyda'n gilydd byddwn yn medru sicrhua fod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yma yn yr ysgol.

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____